



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol

Cymdeithas Tai Aelwyd – L108

Mawrth 2018

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddiol hwn o dan adrannau 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

<http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy>

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

## Sail y Dyfarniad

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai  
Is-adran Datblygu a Rheoleiddio'r Sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig  
Llywodraeth Cymru  
Swyddfa Merthyr Tudful  
Rhyd-y-car  
CF48 1UZ  
e-bost: [housingregulation@wales.gsi.gov.uk](mailto:housingregulation@wales.gsi.gov.uk)

## Proffil

Mae Cymdeithas Tai Aelwyd (“Aelwyd” neu “y Gymdeithas”) yn Gymdeithas Tai Gristnogol a gofrestrwyd ym mis Mawrth 1991, yn dilyn trosglwyddo eiddo o'r Gymdeithas Tai Fedyddiedig a phartneriaeth gyda'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig yng Nghymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru.

Mae Aelwyd yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ac yn gymdeithas gofrestrdedig o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

Mae Aelwyd yn berchen ar 246 o gartrefi ledled De Cymru ac yn eu rheoli, mewn 10 awdurdod lleol, gan gynnwys 223 o gartrefi gwarchod a 23 o gartrefi anghenion cyffredinol.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017, trosiant y Gymdeithas oedd £1,259,730 (2016: £1,266,851). Ei gwarged cyn ail-fesur y rhwymedigaeth pensiwn oedd £158,411 (2016: £193,777) ac roedd yn cyflogi 12 o aelodau o staff cyfwerth ag amser llawn (2016: 12).

## Data Ariannol Allweddol

	Data Hanesyddol		Terfyn Cyfamod	Cyfartaledd ar gyfer y Sector
	2015/16	2016/17		
<b>Perfformiad</b>				
Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant	20.6%	18.1%	dd/g	19.1%
Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant	15.3%	12.6%	dd/g	8.7%
Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti	1.7%	1.6%	dd/g	1.6%
<b>Cyllid</b>				
Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm	55%	57%	dd/g	74%
Geriad (cost hanesyddol)	12%	11%	35%	44%
Sicrwydd llog	527%	491%	100%	153%
Mae gan y Gymdeithas ddigon o gyllid i fodloni ei hymrwymadau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.				

## Dyfarniad Rheoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

### **Statws Cydreoleiddio – Mawrth 2018**

#### **Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

#### **Hyfywedd Ariannol - Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac yn meddu ar yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.